



Care & Repair Cymru

# Aelodaeth Fasnachol Pecyn Gwybodaeth

Gwella cartrefi, Newid bywydau

“

Mae Gofal a Thrwsio wedi fy ngalluogi i gael cartref sych, diogel a chynnes na allwn fod wedi ei gyflawni ar fy mhen fy hun. Diolch yn fawr!”

- Mrs B, Pontypridd



# Am Care & Repair Cymru

Mae Care & Repair Cymru yn arwain ac yn cefnogi 13 o asiantaethau

Gofal a Thrwsio ledled Cymru sy'n rhoi cymorth uniongyrchol i bobl hŷn sy'n agored i niwed, gan eu helpu i fyw mewn cartrefi addas.

Ein gweledigaeth yw Cymru lle gall pob person hŷn fyw'n annibynnol mewn cartrefi cynnes, diogel a hygyrch.

Gyda chymorth ein haelodau y llynedd, mae Gofal a Thrwsio:



Wedi helpu dros **31,000** o bobl hŷn i fyw'n annibynnol gartref



Wedi cwblhau gwerth **£13.4 miliwn** o waith atgyweirio a gwella a **17,460** o addasiadau i atal baglu a chwympo



Wedi gwella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi, gan helpu **1600+** o bobl i aros yn gynnes gartref



Wedi cefnogi ceisiadau am werth **£9.76 miliwn** o hawliau budd-daliadau heb eu hawlio, gan helpu pobl hŷn i fforddio bwyd, trafnidiaeth, ynni, biliau a hanfodion eraill

## Yn ychwanegol at hynny:

Fe wnaeth ein gwasanaeth Ymdopi'n Well dros **2600** o bobl oedd yn dioddef o nam synhwyraidd, strôc a dementia i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi

Fe wnaeth ein gwasanaeth Addasiadau Ymateb Brys atal **19,000** o dderbyniadau i ysbytai a gofal preswyl

Fe wnaeth ein gwasanaeth Adre o'r Ysbyty i Gartref Iachach helpu dros **2500** o gleifion ledled Cymru i adael yr ysbyty a dychwelyd adre'n gynt Fe wnaethom ddsbarthu **£86,600** o'n cronfeydd caledi i fwy na **200** o gartrefi a oedd angen cymorth gydag effeithlonrwydd ynni, diogelwch nwy, a gwaith diogelwch trydanol

Rydyn ni'n credu'n angerddol yn hawliau pobl hŷn i gael tai gweddus ac i allu byw'n annibynnol gyhyd ag y dymunant. Rydym yn ymchwilio ac yn darparu tystiolaeth i gefnogi ein hachos ac yn ceisio gwella gwasanaethau ac arloesedd yn barhaus. Rydym yn eiriol ar ran pobl hŷn sy'n byw mewn cyflwr tai gwael ac yn ymgyrchu dros bolisi ac adnoddau llywodraeth gwell.

Fel aelod masnachol, byddech yn ein helpu i gyflawni'r holl amcanion pwysig hyn. Gyda'n gilydd, gallwn gefnogi pobl hŷn sy'n parhau i fyw mewn tai gwael iawn ac anfoddhaol ledled Cymru.

# About

## ein Haelodaeth Fasnachol

Mae dod yn Aelod Masnachol yn ffordd wych o ddangos eich ymrwymiad i wella cyflwr tai ar gyfer pobl hŷn.

Yn gyfnewid am hynny, gallwn gynnig cyfleoedd i'ch busnes hysbysebu eich cynhyrchion, a rhannu eich negeseuon gyda'r mudiad Gofal a Thrwsio a thu hwnt.

### Ein Cynhadledd

Bob blwyddyn, mae ein cynhadledd yn dod â'r Mudiad Gofal a Thrwsio a'r sefydliadau sy'n bartneriaid at ei gilydd ar raddfa enfawr. Mae ein cynhadledd yn hyrwyddo arfer da ac yn ehangu gwybodaeth y sector. Mae'n gyfle gwych i ymgysylltu â ni, cynhyrchu cyfleoedd newydd a chynyddu ymwybyddiaeth o frand.

### Hyrwyddo eich cwmni drwy ein llwyfannau

Rydym yn weithgar ar y cyfryngau cymdeithasol a chafodd ein gwefan tua 53,000 o ymweliadau y llynedd. Mae darllenwyr ein cylchlythyr yn cynnwys ein Hasiantaethau a phobl sydd wedi cael budd o wasanaethau Gofal a Trwsio ac sydd am gadw mewn cysylltiad.

### Hyrwyddo eich cynhyrchion yn ein Rhwydweithiau cenedlaethol

Rydym yn cynnal Cyfarfodydd Rhwydwaith cenedlaethol drwy gydol y flwyddyn ar gyfer ein Gweithwyr Achos, Swyddogion Technegol a thimau Arwain. Gall hyrwyddo eich busnes mewn cyfarfod rhwydwaith eich helpu i feithrin cydberthnasau cryf â chwsmeriaid newydd a chyfredol a theimlo'n rhan o'r Mudiad Gofal a Thrwsio.

Rydym yn cynnig cynllun aelodaeth sy'n eich galluogi i ddewis lefel y gefnogaeth sy'n diwallu eich anghenion fel busnes orau ac sy'n cynrychioli eich ymrwymiad i wella amodau tai ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru.

# Yn Gyfnewid

## Fel Aelod Masnachol Gofal a Thrwsio gallwch dderbyn y manteision canlynol

Buddion	Arian £300	Aur £500
<b>Sicrhau bod eich neges yn cael ei chlywed gan y Mudiad Gofal a Thrwsio</b>		
Cyhoeddi eich cefnogaeth i'r Mudiad Gofal a Thrwsio	✓	✓
Disgownt ar gyfraddau arddangos yn ein cynhadledd flynyddol yn yr Hydref	disgownt o 10%	disgownt o 20%
Y cynnig cyntaf am <b>gyfleoedd nawdd</b> ar gyfer ein digwyddiadau a'n cyhoeddiadau	✓	✓
Dosbarthu eich deunyddiau mewn un <b>cyfarfod Rhwydwaith Cenedlaethol</b> am eich sefydliad a'ch cynnyrch	✓	✓
Gwahoddiad i fynychu un o <b>gyfarfodydd y Rhwydwaith Cenedlaethol</b> i siarad am eich sefydliad, cynnyrch a gwasanaethau		✓
<b>Hyrwyddo eich sefydliad trwy Gofal a Thrwsio</b>		
Wedi eich rhestru fel Aelodaeth Fasnachol ar hafan ein <b>gwefan</b>		✓
Eich sefydliad wedi'i restru ar dudalen Aelodaeth Fasnachol ein gwefan, gan gynnwys 100 o eiriau am eich sefydliad a <b>dolen i'ch gwefan eich hun</b>	✓	✓
Cyhoeddi eich cefnogaeth yn ein cylchlythyr <b>In Touch chwarterol</b> sy'n mynd allan i'n Cyfeillion Gofal a Thrwsio	✓	✓
Hyrwyddo eich sefydliad drwy ein tudalen <b>Facebook</b>	1 neges	2 neges
Hyrwyddo eich sefydliad drwy ein tudalen <b>Twitter</b>	1 neges	2 neges
Hyrwyddo eich sefydliad drwy ein tudalen <b>LinkedIn</b>	1 neges	2 neges
Gwahoddiad i ysgrifennu <b>blog</b> ar ein gwefan yn amlygu eich busnes, cynnyrch, hyrwyddiadau neu ein partneriaeth, a fydd yn cael ei hyrwyddo drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol	1 erthygl	2 erthygl
Gwahoddiad i ysgrifennu un erthygl yn ein <b>Cylchlythyr In Touch</b> sy'n amlygu eich busnes, cynnyrch, hyrwyddiadau neu ein partneriaeth		✓
<b>Teimlo'n rhan o'r Mudiad Gofal a Thrwsio</b>		
Defnydd o <b>logo</b> Aelod Masnachol Care & Repair Cymru	✓	
Defnydd o <b>logo</b> Aelod Masnachol Aur Care & Repair Cymru		✓
<b>Hysbysiadau e-bost</b> ynghylch Care & Repair Cymru a'r Mudiad Gofal ehangach	✓	✓
Disgownt ar <b>logi ystafelloedd</b>	10%	20%
Copïau am ddim o'n <b>cylchlythyr In Touch</b> chwarterol er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y Mudiad Gofal a thrwsio	2 gopi	5 gopi
Y cyfle i'ch tîm gael <b>sesiwn gwybodaeth</b> am waith Gofal a Thrwsio		✓

# Ffyrdd eraill o gefnogi

## Mae sawl ffordd o gefnogi Gofal a Thrwsio

### Noddi Cynhadledd

Rydym yn rhoi'r gwelededd mwyaf posibl i'n noddwyr cynhadledd, drwy gyhoeddusrwydd cyn y digwyddiad, ar arwyddion safle a chydabyddiaeth yn rhaglen y gynhadledd a'r cyfeiriad agoriadol

Drwy noddi ein cynhadledd, gall eich sefydliad gael yr amlygiad mwyaf posibl i'r Mudiad Gofal a Thrwsio ledled Cymru a chreu neu godi ymwybyddiaeth o'ch brand.

### Rhoi

Rhoi eich cefnogaeth i wella bywydau pobl hŷn ledled Cymru sy'n dymuno aros yn eu cartrefi eu hunain. Does dim rhodd yn rhy fach i wneud gwahaniaeth. Bydd cyfraniad yn helpu i sicrhau bod cymorth ymarferol i bobl hŷn ar gael pan fydd ei angen fwyaf.

### Hysbysebu drwy ein sianeli

Gallwn weithio gyda chi i hysbysebu eich cynnyrch a'ch gwasanaethau ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol

### Codi Arian


Mae codi arian fel tîm staff yn ffordd wych o feithrin morâl y tîm a chodi ymwybyddiaeth o'ch busnes. Mae llawer o ffyrdd y gall eich staff gymryd rhan i'n helpu ni i godi arian i gefnogi pobl hŷn ledled Cymru.

### Cysylltwch â ni

Os oes gennych chi ddiddordeb i gefnogi gwaith Care & Repair Cymru, cysylltwch â ni. Byddem wrth ein boddau yn clywed gennych chi ac yn siarad am ein cynllun aelodaeth.

Charlotte Powell,  
Swyddog Datblygu Busnes:

✉ [Charlotte.powell@careandrepair.org.uk](mailto:Charlotte.powell@careandrepair.org.uk)  
☎ 07376 006 961



# Gyda'n Gilydd

## Gallwn gyflawni pethau mawr

Rydym yn gwerthfawrogi ein Haelodau Masnachol ac rydym bob amser yn barod i wrando ar syniadau newydd. Os hoffech weithio gyda ni ond yr hoffech gyflwyno cynnig ar gyfer pecyn aelodaeth arall, rhowch wybod i ni, os gwelwch yn dda.





Care & Repair Cymru

[www.careandrepair.org.uk](http://www.careandrepair.org.uk)

dewch o hyd i ni ar



Trident Court, 1st Floor, Mariners House, E  
Moors Rd, Cardiff  
CF24 5TD

**Gwella cartrefi, Newid bywydau**